

# **Cyngor Cymuned Llanystumdwy**

**Cofnodion Rhaglen waith y Cyngor - nos Iau, 1af o Chwefror 2024 yn brydlon am 7:00 y.h. yn Festri Pencaenewydd a drwy Zoom (roedd yn bosib cael mynediad i'r cyfarfod drwy gysylltu ar ebost gyda'r Clerc).**

**Yn bresennol** Y Cynghorwyr Sian Angharad Parry (Cadeirydd), Aled Lloyd Evans, Rhys Tudur, Tegid Jones, Delyth Parry, Miriam Williams Darren Morley, Angela Williams, Margaret Griffith, Gareth O. Davies, Euros Jones, Anwen Jones, Dylan Thomas a'r Clerc.

1. **Ymddiheuriadau** - Cynghorwyr Aled Davies a Sion Jones.

2. **Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar Ionawr 2024.**

3. **Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS Ionawr 2024.**

4. **Datgan buddiant personol** - (y Clerc hefyd wedi anfon copi electroneg at bawb).

**Cynghorydd Tegid Jones** - datgan buddiant personol rhif:-

18(c) - Cais ariannol Menter y Plu oherwydd ei fod yn gyfarwyddwr y Fenter.

18(i) - Cais ariannol Mynwent Newydd Llanystumdwy - oherwydd ei fod yn aelod o bwyllgor y Fynwent.

**Cynghorydd Anwen Jones** - datgan buddiant personol rhif:-

18(c) - Cais ariannol Mynwent Newydd Llanystumdwy - oherwydd ei bod yn aelod o bwyllgor y Fynwent.

18(i) - Cais ariannol Menter y Plu - oherwydd ei bod yn perthyn i Gadeirydd Menter y Plu.

**Cynghorydd Darren Morley** - datgan buddiant personol rhif:-

18(e) - Cais ariannol Clwb Peldroedd Llanystumdwy - oherwydd ei fod yn rhan o bwyllgor y Clwb Peldroed.

18(l) - Cais ariannol Clwb Snwcer Chwilog - oherwydd ei fod yn rhan o bwyllgor y Clwb Snwcer.

18(c) - Cais ariannol Mynwent Newydd Llanystumdwy - oherwydd ei bod yn aelod o bwyllgor y fynwent.

**Cynghorydd Margaret Griffith** - datgan buddiant personol rhif:-

18(h) Cais ariannol Eisteddfod Chwilog - oherwydd ei bod yn aelod o bwyllgor yr Eisteddfod.

**Cynghorydd Angela Williams**- datgan buddiant personol rhif:-

18(dd) - Cais ariannol Cymdeithas Adloniant Pencaenewydd oherwydd ei bod yn gadeirydd y gymdeithas.

18(g) - Cais ariannol Cylch Meithrin Llanybi - oherwydd ei bod yn gysylltiedig â'r ysgol.

**Cynghorydd Gareth Davies** - datgan buddiant personol rhif:-

18(c) - Cais ariannol Mynwent Newydd Llanystumdwy oherwydd ei fod ar bwyllgor y fynwent.

**Cynghorydd Delyth Parry** - datgan buddiant personol rhif:-

18(dd) - Cais ariannol Cymdeithas Adloniant Pencaenewydd oherwydd ei bod ar y pwyllgor.

18(a) - Cais ariannol Clwb Ffermwyr Ifanc Llanybi - oherwydd ei bod yn gysylltiedig â nhw.

**Cynghorydd Aled Evans** - datgan buddiant personol rhif:-

18(i) Cais ariannol Menter y Plu - oherwydd ei fod y aelod o bwyllgor Y Plu.

**Cynghorydd Rhys Tudur** – datgan buddiant personol rhif:-

18(l) Clwb Snwcer Chwilog oherwydd ei fod yn aelod o'r Clwb.

**Cynghorydd Euros Jones** – datgan buddiant personol rhif:-

18(i) Cais ariannol Menter y Plu – oherwydd ei fod yn gyfranddaliwr o Fenter y Plu.

18(l) Clwb Snwcer Chwilog oherwydd ei fod yn aelod o'r Clwb.

**Cynghorydd Miriam Williams** – datgan buddiant personol rhif:-

18(i) - Cais ariannol Menter y Plu oherwydd ei bod ar bwyllgor y Fenter.

18(c) – Cais ariannol Mynwent Newydd Llanystumdwy – oherwydd ei bod yn aelod o bwyllgor y Fynwent.

**Cynghorydd Sian Parry** – datgan buddiant personol rhif:-

18(b) - Cais ariannol Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Madog oherwydd bod yn perthyn i aelodau o'r Clwb.

18(c) – Cais ariannol Mynwent Newydd Llanystumdwy – oherwydd ei bod yn aelod o bwyllgor y Fynwent.

**Cynghorydd Dylan Thomas** – datgan buddiant personol rhif:-

18(d) – Cais ariannol Mynwent Chwilog – perthynas ar bwyllgor y Fynwent.

## 5. **Materion gan Cyngor Gwynedd - dim**

## 6. **Cyngor Gwynedd – ceisiadau cynllunio yn y gymuned - dim**

## 7. **Un Llais Cymru – Cyfarfod Pwyllgor Ardal Arfon Dwyfor** – 24.01.2024

Cynghorydd Aled Evans a'r Clerc wedi mynychu drwy zoom. Derbyniwyd cyflwyniad ar ymateb i geisiau adeiladu tai gan James Davies, Cymorth Cynllunio Cymru ac fe wnaeth son am y Cynlluniau Datblygu Strategol newydd fydd yn dod i rym.

Mae Cymorth Cynllunio Cymru wedi trefnu 4 sesiwn rhithiol yn egluro y newidiadau, ac mae'r Clerc wedi anfon y manylion isod at bawb.

Mae pob cais cynllunio yng Nghymru yn cael ei ystyried ar hyn o bryd yn erbyn polisiau cenedlaethol a pholisiau cynllun datblygu lleol. Yn y dyfodol, bydd penderfyniadau hefyd yn cael eu gwneud yn erbyn y math newydd hwn o gynllun rhanbarthol.

Bydd pedwar Cynllun Datblygu Strategol newydd yn cael ei sefydlu, un yr un ar gyfer Gogledd Cymru, Canolbarth Cymru, De-orllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru.

Mae'r cynlluniau hyn yn hynod bwysig oherwydd byddant yn nodi maint a lleoliad twf tai a chyflogaeth ym mhob rhanbarth a byddant yn dyrannu safleoedd strategol i'w datblygu.

Mae'r pedwar seminar hyfforddi ar-lein (di-gost) wedi cael ei cynllunio'n benodol ar gyfer cynrychiolwyr cymunedol, a byddant yn ymdrin â'r pynciau canlynol gan Lywodraeth Cymru:

- Y system cynllun datblygu yng Nghymru a'r hyn mae'n ei olygu i gymunedau
- Beth yw Cynlluniau Datblygu Strategol a sut y byddant yn cael eu paratoi;
- Yr effeithiau y bydd Cynlluniau Datblygu Strategol yn eu cael ar y system cynllun datblygu a,
- Pam a sut y dylai cymunedau ymgysylltu â pharatoi'r cynlluniau hyn.

Yn ogystal â chyflwyniadau ar yr uchod, bydd y cyrsiau'n cynnwys ymarferion rhyngweithiol a nifer o gyfleoedd ar gyfer cwestiynau a thrafodaeth.

Cynigir gwahanol amserau/ dyddiadau i ddarparu gwahanol opsiynau ar gyfer mynychu.

- Dydd Mercher 21.02.2024 -10.30 – 1.00
- Dydd Iau 22.02.2024, - 5.30 – 8.00
- Dydd Llun 26.02.2024, -12.30 – 3.00
- Dydd Mercher 28.02.2024, - 3.30 – 6.00

- Cafwyd cyflwyniad arall hefyd am y **Prosiect Costau Byw**, Un Llais Cymru.

Maent yn casglu gwybodaeth drwy anfon holiadur at y cynghorau i holi beth sydd yn cael ei gynnig yn lleol o fewn y cymunedau. Y prif broblemau yw tlodi bwyd, gwres, cymdeithasu, unigrwydd ac roeddent yn dweud nad ddylasai fod cost uchel mewn cynnal sesiynau fel hyn. Yn aml gellir ei cynnal yn ddi-gost, a chael busnesau lleol i gynnig cymorth, ac yn y pendraw byddai'r sesiynau yn cael ei cynnal ymysg y cyhoedd heb gymorth. **Derbyn**.

### **Materion yn y gymuned**

#### **8. Llanystumdwy**

**Tir ger y Fynwent** - derbyniwyd gwybodaeth fod y tir wedi cael ei werthu i wr busnes sydd yn gysylltiedig â'r cwmni gwerthu carafannu gerllaw, a bod gwaith clirio wedi dechrau'n barod - sef sŵn llifio coed a mwg tân yn codi o'r safle. Mae pryderon yn yr ardal y bydd carafannau yn cael ei cadw yma, a'i bod yn dod allan i ffordd beryglus brys. Clerc wedi cysylltu hefo Mr Aneurin Parry, Adran Cynllunio a dywedwyd y byddent yn cadw golwg ar y safle, a'r peth gorau oedd i gysylltu hefo Cyfoeth Naturiol Cymru os oedd coed yn cael ei torri yno. **Y Clerc wedi anfon llythyr at yr Adran Gorfodaeth a Chyfoeth Naturiol i'w hysbysu o'r datblygiadau yno**.

#### **9. Rhoslan/Ynys - dim**

#### **10. Chwilog/Llanarmon**

a. **Stad Cae Capel, Chwilog** - nodwyd fod tyllau mawr ger mynedfa y stad. **Y Clerc wedi cysylltu hefo Cyngor Gwynedd**.

b. **Stad dai newydd ger Ael y Bryn, Chwilog** - pryder fod baw/pridd ar hyd y lon a'r palmentydd oherwydd fod y tai yn cael ei adeiladu yng nghanol y pentref. Derbyniwyd gwybodaeth gan Steffan Jones, Pennaeth Adran Priffyrdd yn dweud byddai ei Tîm ardal yn ymweld â'r datblygwr i drafod y mater ymhellach gan sicrhau bydd ganddynt drefniadau priodol i gadw y ffordd yn lan.

Eglurwyd mai y dealltwriaeth oedd fod y Rheolwr Gwaith wedi gwneud trefniadau i ysgubo'r ffordd yn rheolaidd. Yn ogystal, fod bwriad fisoedd yn nol i gysylltu â Phennaeth yr Ysgol er trafod ail-leoli'r croeswr lolipop am gyfnod er sicrhau unrhyw wrthdaro gyda mynediad y safle. Mae'r cwmni adeiladu hefyd wedi rhoi mesurau mewn lle i osgoi danfon nwyddau i'r safle o fewn cyfnodau amser sef y bore a diwedd y prynhawn. **Derbyn**.

c. **Llwybr o dan bont Afonwen am y traeth** - mae dwy garreg fawr wedi cael ei symud oddi yno, felly gall cerbydau fynd yno tuag at y traeth. Hefyd roedd y lon wedi malu ac yn edrych fel pebai peiriannau mawr wedi bod yno yn tyllu.

Derbyniwyd ymateb gan Dafydd Williams, Pennaeth Adran Amgylchedd yn dweud bod swyddog o'r Tîm Llwybr Arfordir wedi ymchwilio i mewn i'r mater, ac mae'n ymddangos bod contractwyr a oedd yn ymgymryd â'r gwaith cadwraeth ar ran Hafan y Môr, wedi tramwyo dros y llwybr cyhoeddus gyda pheiriannau trwm. Yn dilyn trafodaeth gyda'r contractwyr, maent wedi derbyn cadarnhad y byddant yn dychwelyd yno ar fyrder i dacluso gwyneb y llwybr. **Derbyn**

#### **11. Pencaenewydd/Sardis - dim**

#### **12. Llangybi - dim**

### 13. Materion Ariannol

Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

Roedd y Clerc wedi anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel' o'r sefyllfa ariannol hyd at 31.01.2024. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud.

14. Lightsource – wedi derbyn £5,138.17 ar 16.01.2025 sydd yn £418.22 yn fwy na llynedd. Derbyniwyd llythyr ganddynt yn holi at pa ddibenion yr oedd yr arian yn cael ei wario. Y Clerc eisioes wedi anfon llythyr atynt yn diolch am yr arian ac yn rhestru'r pethau a wnaed hefo arian llynedd. Maent hefyd wedi dweud ei bod nhw'n dod i'r fferm tua dwywaith y flwyddyn ac yn gofyn os oedd gennym unrhyw achlysur wedi ei drefnu ac y bydden nhw'n gwneud ymgais i fod yno. Maent hefyd wedi gofyn os oedd gennym luniau y gallwn ei rannu hefo nhw er mwyn dangos i'r bobl sydd yn buddsoddi hefo nhw. Gofynwyd i'r Clerc anfon llun o'r enwau llechi ar y pontydd, a dweud fod cyngerdd dathlu 100 mlwyddiant Neuadd Goffa Chwilog ar 12.04.2024.

15. Cais am ad-daliad arian cynnal a chadw llwybrau o fewn y gymuned - Clerc wedi anfon ebost at Mr Dewi Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy Dwyfor i wneud cais.

16. Taliadau BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod:

Enw/Rheswm	Rheswm	Pris £	TAW	Cyfanswm Taliad net £	Taliad BACS:- £
SLCC (MEM247686-1)	Tâl aelodaeth 01.03.24-01.03.25)	<u>144.00</u>		<u>144.00</u>	<u>144.00</u>
Wifi Capel Pencaenewydd	Mae'r taliad rhwng 01.04.23 - 22.12.23 (£49.14 x1, £63.30x1, £56.22x6, £56.93x1=£506.69	<u>£506.69</u>		<u>£506.69</u>	<u>506.69</u>
Capel Pencaenewydd	Cynllun gofod cynnes	<u>200.00</u>		<u>200.00</u>	<u>200.00</u>
**Neuadd Chwilog Gohirio talu tan 07.03.2024-Clerc methu agor y ddogfen anfoneb ac wedi gofyn am un arall cyn ei dalu.**	Cynllun gofod cynnes	<u>200.00</u>		<u>200.00</u>	<u>200.00</u>
Criccieth Cleaning Ltd (3554)	Glanhau llochesi bws- (3 mis rhwng 01.11.23-31.01.24)	<u>182.50</u>	<u>36.50</u>	<u>219.00</u>	<u>219.00</u>

17. Cyflog mis Ionawr 2024 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

Enw/Rheswm	Swm £	Cyfanswm Taliad net £	Taliad BACS:- £
Cyflog sylfaenol Clerc, Ionawr 2024 35 awr y mis x £16.67 = £583.45	583.45 116.80 -llai treth <b><u>£466.65</u></b>	<b><u>466.65</u></b>	<b><u>466.65</u></b>
Cyllid a Thollau EM Treth ar gyflog y Clerc Ionawr 2024	584.00 x 20% = <b><u>£116.80</u></b>	<b><u>116.80</u></b>	<b><u>116.80</u></b>
Costau swyddfa'r Clerc Ionawr 2024	<b><u>£26.00</u></b>	<b><u>26.00</u></b>	<b><u>26.00</u></b>

18. **CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL** gan fudiadau o fewn dalgylch y Cyngor - hysbyseb wedi cael ei roi yn rhifyn mis Tachwedd a Rhagfyr 2023 o'r Ffynnon ac ar yr hysbysfyrddau a'r wefan gyda dyddiad cau 15fed Ionawr 2024.

Derbyniwyd llythyr/ebost a mantolen ganddynt. Cytunwyd i dalu'r symiau isod ar y noson (drwy fod yn deg ac edrych ar anghenion pob cais).

Gwnaeth y Clerc anfon ffurflen o flaen y cyfarfod at y cynghorwyr yn nodi'r rhesymau a roddwyd gan y gwahanol fudiadau am ofyn am gymorth ariannol. Dangoswyd y ceisiadau papur i gyd i'r Cadeirydd a'r Cynghorwyr oedd yn bresennol yn y cyfarfod.

Yn dilyn cyfarfod Pwyllgor Busnes a gafodd ei gynnal ar 05.10.2023, cytunwyd i wario swm tebyg i llynedd (sef £8,903.64 yn cynnwys cyfraniad Wifi), ond ei fod yn anodd gwybod faint o geisiadau a ddaw am gymorth ariannol eleni. (*Uchafswm gwariant posibl o £9.93 x 1521 o boblogaeth cymuned Llanystumdwy=£15,103.53*)

Mae **£441.38** eisioes wedi cael ei dalu am **Wifi Neuadd Chwilog ar 10.01.2024**, a **£506.69** at **Wifi Capel Pencaenewydd ar 08.02.2024. 311.32**. Bydd angen talu am Wifi Neuadd Llanystumdwy hefyd ar ol cael y manylion.

Derbyniwyd a £5138.17 gan gwmni Lightsource ar 16.01.2024, (roedd hyn yn £418.22 yn fwy na llynedd).

<b><u>18.</u></b>	<b><u>2024 - Derbyniwyd 20 cais gan:-</u></b>	<b><u>£</u></b>	<b><u>Cynghorwyr yn ymneilltuo</u></b>
(a).	Clwb Ffermwyr Ifanc Llangybi	500.00	Delyth Parry
(b).	Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Madog	500.00	Sian Parry
(c)	Mynwent Newydd Llanystumdwy	1000.00	Sian Parry, Anwen Jones, Tegid Jones, Gareth Davies, Darren Morley a Miriam Williams
(ch)	Mynwent Capel Helyg, Llangybi	500.00	Neb

(d)	Mynwent Rydd ac Anenwadol Chwilog	500.00	Dylan Thomas
(dd)	Cymdeithas Adloniant Capel Pencaenewydd	500.00	Angela Williams a Delyth Parry
(e)	Clwb Peldroed Llanystumdwy	500.00	Darren Morley
(f)	Mynwent Eglwys Llangybi	250.00	Neb
(ff)	Neuadd Chwilog	1000.00	Neb
(g)	Cylch Meithrin Llangybi	1000.00	Angela Williams
(ng)	Cylch Meithrin Chwilog	1000.00	Neb
(h)	Eisteddfod Gadeiriol Chwilog	500.00	Margaret Griffith
(i)	Menter y Plu	200.00	Tegid Jones, Aled Evans, Anwen Jones, Euros Jones a Miriam Williams
(l)	Clwb Snwcer Chwilog	200.00	Darren Morley, Rhys Tudur ac Euros Jones
(m)	Elusen Ambiwlans Awyr Cymru	50.00	Neb
(n)	Urdd Gobaith Cymru Rhanbarth Eryri	50.00	Neb
(o)	Theatr Bara Caws	100.00	Neb
(p)	Radio Ysbyty Gwynedd	50.00	Neb
(ph)	Pwyllgor Ardal Dwyfor Sir Nawdd Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru Caernarfon 2025	0.00	Neb
(r)	<i>Dawns i Bawb -derbyniwyd yn hwyr 22.01.2024</i>	0.00	Neb
	<b><u>Cyfanswm</u></b>	<b><u>£8,400.00</u></b>	
	Wifi Neuadd Chwilog (talwyd 10.01.24)	441.38	
	Wifi Pencaenewydd (i'w dalu yn dilyn cyfarfod)	506.69	
	Wifi Neuadd Llanystumdwy (heb dderbyn manylion eto)	-	
	<b><u>Cyfanswm</u></b>	<b><u>£9,348.07</u></b>	

### **Materion hwyr**

19. Derbyniwyd anfoneb gan Criccieth Cleaning Ltd ar 31.01.2024 a oedd yn rhy hwyr i'w gynnwys ar y rhaglen - felly, gyda chaniatâd y Cadeirydd caniatwyd i'w dalu yn dilyn y cyfarfod. *Mae'r manylion uchod ar y tabl taliadau.*

Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau **07.03.2024**, yn Ffestri Pencaenewydd, ac yn rhithiol.

**It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk.**